Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru

## Cylch Ariannu Cyffredinol 4

*Ffurflen Gais Lawn - Canllawiau Sut i Gwblhau*

# Cynnwys

Gwybodaeth ........ 3
Cofrestru ar RPW Ar-lein ........ 5
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ........ 5
Tudalen Fewngofnodi Porth y Llywodraeth ........ 5
Hafan ........ 6
Y Dudalen Ffurflenni ........ 8
Ffurflen Gais Rownd Cyllid Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru – Cychwyn Cais ........ 9
Parhau â'r Cais / Dechrau Eto ........ 10
Cyflwyniad ........ 12
Hysbysiad Preifatrwydd ........ 13
Manylion y Busnes/Sefydliad ........ 14
Manylion y Cwch ........ 16
Trosolwg o'r Prosiect ........ 18
Cynllun y Prosiect ........ 20
Cynllun y Prosiect – Cyweddu Strategaethau ........ 21
Cynllun y Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad ........ 22
Cynllun y Prosiect – Cyflawni y Prosiect ........ 23
Cynllun Prosiect – Cyflawni Prosiect - Rheoli Risg ........ 26
Cynllun y Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor ........ 28
Cynllun y Prosiect - Rheoli'r Prosiect ........ 29
Cynllun y Prosiect – Gwerth am Arian ........ 30
Uchafswm ac Isafswm y Grant ........ 34
Cynllun y Prosiect – Themâu Trawsbynciol ........ 36
Cynllun y Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau ........ 37
Cynllun y Prosiect - Ariannol a Chydymffurfio ........ 41
Pob Prosiect ........ 41
Rhestr o'r Dogfennau Atodol ........ 43
Cyflwyno ........ 44
Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........ 44
Datganiad ac Ymrwymiadau ........ 45
Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno ........ 46
Ar ôl Cyflwyno'r Datganiad yn Llwyddiannus ........ 47
Beth sy'n digwydd nesaf? ........ 47
Cysylltiadau ........ 48

Fersiwn: 1
Dyddiad Cyhoeddi: Chwefror 2024
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
© Hawlfraint y Goron 2024
WG46851 ISBN: 978-1-83577-107-5

# Gwybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn eich tywys trwy'r camau ar gyfer llenwi a chyflwyno eich cais ar gyfer Cylch Cyllido Cyffredinol Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein, gan roi manylion eich prosiect i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi allu asesu a yw eich cais yn dderbyniol, ac os ydyw, bydd yn rhoi sgôr ichi ar gyfer eich dewis. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod beth fydd canlyniad y broses, a dim ond ceisiadau fydd wedi'u dewis fydd yn cael eu gwerthuso'n llawn ar gyfer eu hystyried am Ddyfarniad Grant.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus. Bydd angen i chi hefyd gyfeirio at lyfryn canllawiau Perthnasol i bob rownd Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru a'r Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru Llyfryn canllawiau Cylch Cyllido Cyffredinol y rhain yn cynnwys manylion llawn y cyfleoedd sydd ar gael yn ogystal â'r meini prawf cymhwysedd allweddol.

Yn achos prosiectau fydd yn cael eu dewis, penderfynir ar faint o arian fydd ar gael ar gyfer pob cais pan gaiff y cais ei werthuso ac ni phenderfynir ar y swm terfynol nes y bydd y prosesau asesu a gwerthuso wedi'u cwblhau. Ni fydd y grant terfynol a roddir yn fwy na'r swm y byddwch wedi'i nodi yn eich cais a'r terfyn uchaf yw £100,000.

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig trwy RPW Ar-lein. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg rhwng dyddiad agor a dyddiad cau'r cynllun. Ni fydd modd cael estyniad.

Nid oes rhaid aros tan ddiwedd y cyfnod ymgeisio cyn cyflwyno ceisiadau. Rydym yn eich cynghori'n gryf i gyflwyno'ch cais cyn gynted â phosibl.

Rhaid ichi lenwi a chyflwyno'r cynlluniau a'r dogfennau canlynol:

- Ymgeisio Ar-lein am Gylch Cyllido Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru
- Cynllun busnes 3 blynedd (nid oes angen hyn os yw'r ymgeisydd yn Gorff Cyfraith Gyhoeddus neu Academia).
- 3 blynedd o Gyfrifon Ardystiedig (nid oes angen hyn os yw'r ymgeisydd yn Gorff Cyfraith Gyhoeddus neu Academia).
- 3 blynedd o amcanestyniadau ariannol (nid oes angen hyn os yw'r ymgeisydd yn Gorff Cyfraith Gyhoeddus neu Academia).
- Tystiolaeth o arian cyfatebol ar gael (benthyciad banc, gorddrafft, etc) lle bo hynny'n berthnasol.
- Caniatâd Cynllunio os yw'n briodol ac unrhyw gymeradwyaeth/ cydsyniadau eraill.
- Unrhyw ddyfynbrisiau a dderbynnir sy'n rhan o'r cais llawn.

Ar gyfer ceisiadau gan Fusnes / Sefydliadau llai na thair blwydd oed, bydd y cyfrifon sydd ar gael yn cael eu hystyried.

Os oes angen cydsyniad cynllunio ar eich buddsoddiad, os ar gael, cynhwyswch unrhyw gydsyniadau cynllunio sy'n bodoli ar hyn o bryd. (Bydd angen tystiolaeth eich bod wedi cael y cydsyniad cynllunio cyn y gallwn brosesu unrhyw hawliad grant).

Os bydd gwybodaeth ar goll o'ch cais, byddwn yn gofyn amdani, ond bydd hyn yn arafu'r broses o asesu eich cais.

Sylwer: Os cewch broblemau gydag RPW Ar-lein, ffoniwch Ddesg GyMôrth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl at y Cynnwys


# Cofrestru ar RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein.  Darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru i ddysgu mwy.  Mae modd cwblhau'r rhan fwyaf o newidiadau i fanylion busnes ar-lein.  Ond mae'n bosib y bydd angen rhagor o fanylion ar Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau mawr.  I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

## Tudalen Fewngofnodi Porth y Llywodraeth

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – rhowch eich ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi.**





Os ydych yn cael problem neu'n ei chael yn anodd mynd i'ch cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg GyMôrth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


Yn ôl at y Cynnwys

# Hafan

Ar ôl mewngofnodi ar eich cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.




Yn yr adran ‘Dechrau Ffurflen’ ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw’r cynllun rydych am wneud cais amdano. Bydd Ffurflen Gais Cylch Cyllido Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru ar gael yma tan y dyddiad cau.




**Neu** gallwch glicio ar y tab **'Ffurflenni'** ar dudalen hafan RPW Ar-lein, fel y gwelwch iisod:





Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **English** ar gornel dde ucha'r sgrin. Gallwch ei ddefnyddio i ddewis yr iaith y gwelwch Ffurflen Gais Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru ynddi.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Y Dudalen Ffurflenni

Ar ôl clicio ar y tab ‘Ffurflenni’, fe welwch y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.





Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis y ffurflen yr ydych am ei chyflwyno.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Ffurflen Gais Rownd Cyllid Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru – Cychwyn Cais

Fe'ch cynghorir i ddarllen llyfryn canllawiau Perthnasol i bob rownd Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru a llyfryn canllawiau Cylch Cyllid Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru cyn dechrau'r ffurflen gais.





I ddechrau eich ffurflen gais, cliciwch y botwm **Dechrau** .

Mae'r dudalen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ichi cyn dechrau'r cais.  Mae dolen ynddi i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid os oes angen, ynghyd â'ch Manylion Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein sydd gennym amdanoch.  Darllenwch hwy a'u newid cyn cychwyn eich cais os ydyn nhw'n anghywir.

# Parhau â'r Cais / Dechrau Eto

Ar ôl dechrau llenwi'ch cais, gallwch ddewis ei adael a dod yn ôl ato nes ymlaen.  Os ydych yn dod yn ôl at gais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, cliciwch ar Parhau ar y sgrin hon (y botwm glas ar waelod y sgrin) neu os ydych am ddechrau eto, cliciwch ar y botwm Dechrau Eto a welwch ar y sgrinlun hwn:





## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS.**

Cewch ddewis dileu'ch **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS** a llenwir y **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid

Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS)
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol


Parhau i weithio ar **Cais ar gyfer Cylch Ariannu Cyffredinol WMFS** a gafodd ei ddiweddaru ar 12/01/2024 am 07:36 gan Charlies Estate Agent

Parhau | Yn ôl

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd

Cofiwch – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau a atebwyd gennych a bydd yn cael gwared â'r holl wybodaeth a ychwanegwyd.

Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar Ydw, neu fel arall cliciwch ar Na, fel y gwelwch ar y sgrinlun hwn:





[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cyflwyniad

Dyma'r dudalen gyflwyno sy'n eich cynghori cyn cwblhau'r cais i ddarllen llyfryn canllawiau Cylch Cyllido Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru.

Mae dolen i dudalen grantiau'r Môr a Physgodfeydd ar ochr chwith uchaf y sgrin hon, a fydd yn eich cyfeirio at y Canllaw Sut i Gwblhau ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fe welwch ar y chwith restr o'r adrannau gwahanol.  Mae croes goch yn dangos naill ai nad ydych wedi agor yr adran eto neu eich bod wedi gwneud camgymeriad yn yr adran.  Bydd tic gwyrdd yn dangos eich bod wedi llenwi'r adran ac nad ydym yn gallu gweld unrhyw gamgymeriadau.  Mae botymau llywio ar dop ac ar waelod y ffurflen. Hefyd os ydych am newid i'r Saesneg neu yn ôl i'r Gymraeg, mae botwm ichi allu gwneud hynny ar gornel chwith isa'r sgrin, fel y gwelwch yn y sgrinlun isod.





Ar ôl darllen yr hysbysiad, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




Yn ôl at y Cynnwys

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd, rydym yn esbonio'ch hawliau a beth byddwn yn ei wneud â'ch gwybodaeth i brosesu'ch cais. Rhaid darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.




Ar ôl darllen yr hysbysiad, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**





[Yn ôl at y Cynnwys]


# Manylion y Busnes/Sefydliad

Ar y dudalen Manylion y Busnes/Sefydliad, byddwch yn rhoi gwybodaeth am eich busnes, er enghraifft pa fath o fusnes/sefydliad sydd gennych, unrhyw gyfeirnodau sy'n berthnasol, maint eich busnes/sefydliad a faint o staff sydd gennych (os yn berthnasol). Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth i weld a ydych yn gymwys i gael y grant dan sylw.


Rhaid ateb y rhan fwyaf o’r cwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.




Bydd angen rhagor o fanylion ar ambell gwestiwn, gan ddibynnu ar yr ateb y byddwch yn ei roi – fel y gwelwch isod.





Sylwch, os byddwch yn nodi 'Trosiant Gros Blynyddol' ac 'Asedau Net y Fantolen' bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ategol. Gall y dystiolaeth hon fod ar ffurf llythyr gan gyfrifydd yn cadarnhau trosiant eich busnes neu falans o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Neu ffurflen dreth y flwyddyn flaenorol sy'n dangos trosiant / balans. Nid oes angen y dystiolaeth hon os ydych yn Awdurdod Lleol / Prifysgol.




Ar ôl i chi ddewis a yw eich Busnes / Sefydliad yn y 'Sector Dalfeydd’ neu'r 'Sector Dyframaethu', bydd cwestiynau ychwanegol yn ymddangos y mae yn rhaid i chi eu cwblhau hefyd.







# Manylion y Cwch

Os ydych wedi dewis 'Sector Dalfeydd' ac 'Ie' i 'Ai chi yw'r perchennog/rhan-berchennog neu'n gapten cwch fasnachol drwyddedig sydd ar gofrestr fflyd bysgota'r DU ac a weinyddir gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru?' rhaid i chi nodi manylion pob cwch sy'n ymwneud â'ch prosiect. I wneud hynny, cliciwch y botwm 'Ychwanegu Cwch'.





Mae clicio 'Ychwanegu Cwch' yn mynd â chi i'r sgrin 'Manylion Cwch', lle gallwch roi gwybodaeth am y cychod rydych chi'n berchen arnynt, neu os ydych chi'n rhan-berchennog neu'n gapten ohonynt. Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.




Ar ôl i chi ateb yr holl gwestiynau, cliciwch ar y botwm 'Cadw', ac yna ar y botwm 'Cadw a Dychwelyd'.

Bydd y sgrin Busnes / Sefydliadol nawr yn dangos manylion y cwch rydych wedi'i nodi.



Gellir addasu neu ddileu manylion cwch trwy ddefnyddio'r botymau hyn.

Ar ôl ateb yr holl gwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**





Yn ôl at y Cynnwys


# Trosolwg o'r Prosiect

Tudalen Trosolwg y Prosiect yw lle bydd angen i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth gyffredinol am y Prosiect megis pa un o nodau'r Cynlluniau y mae eich prosiect yn cyd-fynd ag ef, o dan ba gategori ac is-gategori yr ydych yn gwneud cais, enw'r prosiect, disgrifiad, cyfeiriad lleoliad a dyddiadau dechrau a gorffen.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.




Ar ôl i chi ddewis pa gategori rydych yn ymgeisio oddi tano, rhestrir is-gategorïau i chi ddewis ohonynt. Bydd y rhestr hon yn cael ei phennu ymlaen llaw o'r wybodaeth rydych wedi'i nodi yn y dudalen Manylion Busnes/Sefydliadol blaenorol.





Ar ôl ei ddewis, rhowch enw eich Prosiect a’r disgrifiad o’ch Prosiect. Bydd y blwch testun yn ehangu i ganiatáu 500 o nodau. Nifer y nodau a ganiateir yw hyn nid nifer y geiriau.



Rhowch eich cod post yn y blwch a chliciwch ar y botwm **Chwilio am gyfeiriad**.




Dewiswch y cyfeiriad o'r rhestr.  Yna rhowch ddyddiad dechrau a dyddiad gorffen y prosiect.  Gallwch naill ai deipio'r dyddiadau neu glicio ar eicon y calendr fel y dangosir isod. Mae'n rhaid cyflwyno pob cais erbyn 31 Mawrth 2025.




Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Prosiect

Mae adran nesa'r ffurflen yn eich holi am Gynllun eich Prosiect.  Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am grant lenwi Cynllun Prosiect.  Mae templed safonol i Gynllun Prosiect, ac mae ganddo ddeg pennawd.




Caiff yr wybodaeth a roddwch o dan bob pennawd ei defnyddio i asesu a gwerthuso'ch cais ac i benderfynu a ddylai grant gael ei roi i'ch prosiect.

**Pwysig: os bydd angen gofyn ichi am ragor o wybodaeth, gallai hynny arafu prosesau asesu'r cais felly rydym yn eich cynghori'n gryf i ddilyn y canllawiau'n fanwl a rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani. Ond os bydd unrhyw beth yn aneglur neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, fe wnawn ni gysylltu â chi.**

**Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid i'r manylder ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur â chwmpas a maint y prosiect dan sylw.**

Yn ôl at y Cynnwys


# Cynllun y Prosiect – Cyweddu Strategaethau

Yn yr adran Cyweddu Strategaethau, bydd gofyn ichi esbonio sut y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfrannu at nod/amcan y Cylch Cyllido Cyffredinol yr ydych wedi'i ddewis yn adran Trosolwg Prosiect y ffurflen:

- Cyfrannu at gael amgylchedd morol yng Nghymru sy'n wydn ac yn gynaliadwy yn erbyn effeithiau newid hinsawdd.
- Cyfrannu at gael yr wyddoniaeth a'r dystiolaeth yng Nghymru i lywio penderfyniadau yn y dyfodol yn sector Môr, Pysgodfeydd a Dyframaeth Cymru o ddata rhywogaethau i sectorau morol yn cydfodoli.
- Cyfrannu at sicrhau amgylchedd morol bioamrywiol yng Nghymru ac ecosystem ffyniannus, gynaliadwy.
- Cyfrannu at sector bwyd môr cynaliadwy, proffidiol ac amrywiol yng Nghymru sydd â marchnad ddomestig gref ynghyd â marchnad fyd-eang sy'n ehangu.

Bydd angen ichi esbonio'n glir sut y bydd y buddsoddiad yn cyfrannu at amcan a nod strategol y cylch cyllido yr ydych wedi'i ddewis ac egluro pam mae angen y buddsoddiad.

Fe welwch yr adran Cydweddu Strategaethau ar y sgrinlun isod:




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.  Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




Yn ôl at y Cynnwys


# Cynllun y Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad

Ar y dudalen addasrwydd y buddsoddiad bydd yn rhaid i chi gyflwyno manylion a fydd yn ein galluogi i werthuso pa mor briodol yw’r buddsoddiad i gyflawni nodau'r prosiect.

Bydd angen i chi ddangos pam fod eich cynnig yn addas ar gyfer buddsoddiad grant. Mae angen ystyried risgiau a buddion y cynnig ac a yw natur y buddsoddiad yn cyd-fynd â 7 nod Llesiant Llywodraeth Cymru sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau mwy cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg lewyrchus
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn [Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU]




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**





[Yn ôl at y Cynnwys]

## Cynllun y Prosiect – Cyflawni y Prosiect

Ar y dudalen Cyflawni y Prosiect, byddwch yn disgrifio'r gwaith y bydd y Busnes/Sefydliad yn ei wneud.

Yn yr adran hon, bydd gofyn ichi esbonio beth yw diben yr arian rydych yn ei gael a phwy fydd ei angen arnoch i gyflawni'r diben hwnnw, gan gynnwys:


- Amserlen i gynnal holl weithgareddau a chamau'ch prosiect
- Sut ydych yn bwriadu cynnal eich prosiect.
- Y prif weithgareddau y bydd angen eu cynnal
- Yr adnoddau fydd eu hangen i gynnal y prosiect
- Pwy fydd yn rheoli'r gwaith
- Disgrifiwch sut ydych wedi pennu'r amserlenni.




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiwn cyntaf, bydd angen ichi ychwanegu Gweithgareddau'r Prosiect. Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd** i fynd yn eich blaen.



Ar ôl clicio ar y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd**, fe welwch y dudalen ganlynol:



Yma, bydd angen ichi nodi enw'r Gweithgaredd, disgrifiad ohono a'i ddyddiad dechrau a'i ddyddiad gorffen. I nodi'r dyddiadau, cliciwch ar fotwm y **calendr.** Wedi ichi fwydo'ch holl wybodaeth, cliciwch naill ai ar y botwm **Cadw ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu gweithgaredd arall), neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen). Gallwch gofnodi faint a fynnoch o eitemau:

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




[Yn ôl at y Cynnwys]


# Cynllun Prosiect – Cyflawni Prosiect - Rheoli Risg

Ar y dudalen Cyflawni – Risg a Rheoli Risg, bydd angen ichi roi crynodeb yn y tabl o o leiaf y pum risg mwyaf allai effeithio ar eich gallu i gyflawni y prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect.  Bydd hynny'n cynnwys:

- Beth yw'r risg
- Beth yw'r risg ac a yw'n debygol o ddigwydd dros y cyfnod y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni?
- Beth fyddai'n digwydd i'r prosiect pe bai yn digwydd?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau'r risg?

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb ychwanegu o leiaf 5 risg.

Cliciwch ar **Ychwanegu Risg** i ddechrau nodi'ch risg cyntaf.




Wrth glicio arno, fe welwch y sgrin cofnodi yn y sgrinlun isod:




Ar ôl i chi gofnodi’r holl wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Cadw ac Ychwanegu Un Arall** er mwyn ychwanegu risg arall, neu’r botwm **Cadw a Dychwelyd** os ydych wedi gorffen.

Bydd gofyn ichi gofnodi o leiaf 5 risg gwahanol.  Os na fyddwch yn nodi o leiaf 5, fe welwch neges camgymeriad ac ni fydd yr adran hon yn ymddangos fel adran sydd wedi’i chwblhau, fel y gwelwch ar y sgrinlun isod:





Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cynllun y Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor

Ar y dudalen ‘Cynaliadwyedd Hirdymor’, byddwch yn esbonio, gan roi tystiolaeth, sut y caiff y buddsoddiad effaith bositif ar gynaliadwyedd hirdymor y Busnes/ Sefydliad. Gan gynnwys sut y gallai'r buddsoddiad annog buddsoddiadau yn y dyfodol.




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**





[Yn ôl at y Cynnwys]

# Cynllun y Prosiect - Rheoli’r Prosiect

Ar y dudalen Rheoli’r Prosiect, bydd angen ichi roi’r wybodaeth ganlynol ar sut y caiff y Prosiect ei reoli:

- Esboniwch sut mae gan y Busnes / Sefydliad yr adnoddau a'r gallu angenrheidiol i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus a phwy fydd yn rheoli'r gwaith.
- Rhowch fanylion y gweithgareddau fydd yn cael eu cynnal wrth roi’r prosiect ar waith i sicrhau ei fod yn llwyddiant e.e. hyfforddiant, y cyngor a dderbynnir ac ati.




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cynllun y Prosiect – Gwerth am Arian

Ar y dudalen Gwerth am Arian, byddwch yn rhoi gwybodaeth am gostau'r Prosiect a'r dyfynbrisiau.

I gwblhau'r adran hon, rhaid darllen y Nodiadau Canllaw Technegol ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru cyn i chi fynd i unrhyw gost.

Am fwy o wybodaeth gweler:

Tendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus - nodiadau canllaw technegol (llyw.cymru)

Cofrestr a Chofnod Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

Yn yr adran hon, dangoswch sut y cyrhaeddwyd cyfanswm costau'r prosiect drwy ddarparu dadansoddiad manwl o'r gwariant arfaethedig. Rhaid i chi gynnwys yr holl wariant arfaethedig yn erbyn y categori perthnasol gyda disgrifiad. Byddwch yn ymwybodol mai'r costau a nodir yn yr adran hon yw'r costau y bydd y prosiect yn cael ei gymeradwyo, os yw'n gymwys.

Yn yr adran hon:

- Cynhwyswch yr holl wariant arfaethedig ac esboniwch sut rydych wedi amcangyfrif cyfanswm costau'r prosiect.
- Esboniwch sut rydych wedi ystyried costau'r prosiect, gan gynnwys cwmpas, maint ac amserlen y cynigion. Dangoswch sut y mae'r costau wedi'u pennu i fod yn rhesymol drwy gyfeirio at ddyfynbrisiau; costau safonol gweithgareddau blaenorol; cymariaethau o fewn y diwydiant megis tablau QS neu ddadansoddiad technegol annibynnol.
- Lle bo yn briodol, dangoswch sut y mae opsiynau gwahanol ar gyfer cyflawni amcanion y prosiect wedi'u hystyried ac esboniwch pam a sut y gwnaethoch ddewis yr opsiwn a ddewiswyd.
- Rhowch dystiolaeth sut rydych wedi casglu dyfynbrisiau neu rowch gopïau o'r dyfynbrisiau os ydyn nhw ar gael.


Mae tudalen gyntaf yr adran Gwerth am Arian i’w gweld yn y sgrinlun isod.

Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau. Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.






Cliciwch ar y botwm **Ychwanegwch Eitem Gwariant**.

Dewiswch yr **Eitem** o’r rhestr. Gallwch naill ai chwilio trwy’r rhestr am yr eitem sydd ei hangen arnoch neu ddechrau teipio’r llythrennau cyntaf yn y bar chwilio a chael hyd i’r eitemau sy’n cyfateb.  Dylid nodi bod costau wedi'u haddasu'n awtomatig i'r gwerth sy'n briodol i'ch cyfradd ymyrraeth gymeradwy.




Rhowch Gyfanswm y Gost Amcangyfrifedig a Manylion yr Eitem.





Ar ôl nodi'r dyfynbris, cewch y dewis i 'Gadw' neu 'Cadw a Dychwelyd' at y dudalen Eitemau a Ddewiswyd.





Ar ôl ichi ddychwelyd at y dudalen Eitem a Ddewiswyd, dangosir eich Eitemau Gwariant.




I gyfrifo costau Staff y Prosiect, cyfeiriwch at yr adran 'Costau Staff Prosiect Allweddol' yng nghanllawiau Cylch Cyllido Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru.

Bydd angen i chi gyfrifo nifer y gweithwyr o dan y swyddi penodol yn ôl nifer yr oriau a weithir yn ôl cyfradd yr awr. Mae'r gyfradd fesul awr wedi'i chyfrifo ar 100%. Pan fyddwch yn nodi'r swm rydych wedi'i gyfrifo yn y blwch 'Cyfanswm Cost Amcangyfrifedig', bydd y 'Gwerth Grant' yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig i ddangos y gwerth sy'n briodol i'ch cyfradd ymyrraeth gymeradwy.

Yn y 'Manylion Eitem' dylech roi manylion llawn am y swydd a'r gwaith a wnaed, faint o weithwyr o dan y swydd hon a nifer yr oriau a weithiwyd.





Er mwyn dangos tystiolaeth o gostau staff, bydd angen i chi ddarparu taflenni amser wedi'u llofnodi gan swyddog prosiect awdurdodedig ar gyfer pob aelod o staff yr ydych yn hawlio ar eu cyfer.

[Yn ôl at y Cynnwys]

## Uchafswm ac Isafswm y Grant

Yr isafswm gwerth y grant yw £500 ac uchafswm gwerth y grant y gellir gwneud cais amdano o dan Gylch Cyllid Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yw £100,000. Bydd y gwerthoedd a nodir yn y tabl Eitemau a Ddewisir yn yr adran hon yn cael eu capio ar yr uchafswm gwerth grant.

Os yw nifer yr eitemau buddsoddi yn fwy na gwerth Uchafswm Grant bydd yr eitemau'n cael eu hariannu'n rhannol.


Cynllun y Prosiect - Gwerth am Arian

Yn ôl | Safio | Nesaf

*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â * .*

Mae'n rhaid ichi gyfeirio at y canlynol cyn ysgwyddo costau.

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 - Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Nodiadau Canllaw Technegol

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Cofrestr a Chofnod

Dangoswch sut yr ydych wedi cyrraedd cyfanswm cost y prosiect trwy ddarparu dadansoddiad manwl o'r gwariant arfaethedig.

Eitemau a ddewiswyd

Mae'n rhaid ichi gynnwys yr holl wariant arfaethedig yn y tabl isod yn erbyn y categori perthnasol gyda disgrifiad o'r gwariant arfaethedig. Cofiwch mai y costau sy'n cael eu nodi yn yr adran hon yw'r costau fydd, os yn gymwys, y prosiect yn cael ei gymeradwyo amynt.


Ar gyfer pob eitem gwariant, cliciwch 'Ychwanegu Eitem Gwariant' a'i ddewis o'r rhestr o wariant cyfalaf a refeniw yn y gwymplen (wedi'i restru hefyd yn Atodiad A).

| Rhif | Disgrifiad | Amcangyfrif o Gyfanswm y Gost | Gwerth y Grant | Manylion yr Eitem | Ychwanegu Eitem Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| GF001 | Refeniw – Gwasanaeth Cynghori | £5,000.00 | £4,000.00 | Advisory Services. | Addasu Dileu |
| GF002 | Gweithwyr Proffesiynol ym Maes Rheoli Prosiectau Ariannol a Busnes | £60,000.00 | £48,000.00 | Project Manager. | Addasu Dileu |
| GF003 | Cyfalaf – TGCh | £5,000.00 | £4,000.00 | ICT. | Addasu Dileu |
| GF004 | Gweithwyr Proffesiynol ym maes Busnes ac Ymchwil Cysylltiedig | £60,000.00 | £48,000.00 | Researchers. | Addasu Dileu |
| | | Gwerth y Grant Mwyaf | £104,000.00 | | |

Canran y Gyfran Ymyrraeth Gyllido ar gyfer Math a Maint eich Busnes / Sefydliad yw 80%.

- Rydych wedi mynd dros y grant mwyaf o £100000.00. Dilewch eitemau.

Bydd cwestiynau ychwanegol yn ymddangos y bydd yn rhaid ichi eu hateb.


Cynllun y Prosiect - Gwerth am Arian

Yn ôl | Safio | Nesaf

*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â * .*

Mae'n rhaid ichi gyfeirio at y canlynol cyn ysgwyddo costau.

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 - Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Nodiadau Canllaw Technegol

Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus - Cofrestr a Chofnod

Dangoswch sut yr ydych wedi cyrraedd cyfanswm cost y prosiect trwy ddarparu dadansoddiad manwl o'r gwariant arfaethedig.

Eitemau a ddewiswyd

Mae'n rhaid ichi gynnwys yr holl wariant arfaethedig yn y tabl isod yn erbyn y categori perthnasol gyda disgrifiad o'r gwariant arfaethedig. Cofiwch mai y costau sy'n cael eu nodi yn yr adran hon yw'r costau fydd, os yn gymwys, y prosiect yn cael ei gymeradwyo amynt.

Ar gyfer pob eitem gwariant, cliciwch 'Ychwanegu Eitem Gwariant' a'i ddewis o'r rhestr o wariant cyfalaf a refeniw yn y gwymplen (wedi'i restru hefyd yn Atodiad A).

| Rhif | Disgrifiad | Amcangyfrif o Gyfanswm y Gost | Gwerth y Grant | Manylion yr Eitem | Ychwanegu Eitem Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| GF001 | Refeniw – Gwasanaeth Cynghori | £5,000.00 | £4,000.00 | Advisory Services. | Addasu Dileu |
| GF002 | Gweithwyr Proffesiynol ym Maes Rheoli Prosiectau Ariannol a Busnes | £60,000.00 | £48,000.00 | Project Manager. | Addasu Dileu |
| GF003 | Cyfalaf – TGCh | £5,000.00 | £4,000.00 | ICT. | Addasu Dileu |
| GF004 | Gweithwyr Proffesiynol ym maes Busnes ac Ymchwil Cysylltiedig | £60,000.00 | £48,000.00 | Researchers. | Addasu Dileu |
| | | Gwerth y Grant Mwyaf | £104,000.00 | | |


Canran y Gyfran Ymyrraeth Gyllido ar gyfer Math a Maint eich Busnes / Sefydliad yw 80%.

- Rydych wedi mynd dros y grant mwyaf o £100000.00. Dilewch eitemau.

Ydych chi yn gwneud cais am uchafswm gwerth y grant uchod?* ○ Ydw ○ Nac ydw

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.

Os byddwch yn ateb ‘Na’ i ‘A ydych yn gwneud cais am uchafswm y grant uchod?’ bydd angen ichi hefyd nodi ‘Gwerth y grant y gwneir cais amdano (£)’.


Canran y Gyfran Ymyrraeth Gyllido ar gyfer Math a Maint eich Busnes / Sefydliad yw 80%.

- Rydych wedi mynd dros y grant mwyaf o £100000.00. Dilewch eitemau.

Ydych chi yn gwneud cais am uchafswm gwerth y grant uchod?* ○ Ydw ◉ Nac ydw

Rhaid ateb y cwestiwn hwn.

Gwerth y grant yr ydych yn gwneud cais amdano?*

Ar ôl ichi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm Nesaf.




Yn ôl at y Cynnwys


# Cynllun y Prosiect – Themâu Trawsbynciol

Y dudalen Themâu Trawsbynciol yw lle byddwch yn darparu tystiolaeth ar sut mae'r Prosiect arfaethedig yn cyfrannu at themâu trawsbynciol.  Yn yr adran hon mae angen i chi egluro sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at themâu trawsbynciol y canlynol:

- Yr Iaith Gymraeg
- Cyfle cyfartal a Phrif ffrydio rhywedd
- Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 6000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau. Cadwch hyn mewn cof wrth lenwi eich ffurflen.

Mae’n orfodol i chi ateb y cwestiwn yn yr adran hon ac ni fydd modd i chi gyflwyno eich ffurflen heb ei ateb.



Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm Nesaf.





Yn ôl at y Cynnwys

# Cynllun y Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau

Ar y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau, byddwch yn esbonio sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at Ddangosyddion Canlyniadau y Cylch Cyllido.

Am restr o'r dangosyddion canlyniadau sy'n berthnasol i bob is-gategori, gweler Atodiad A yn llyfryn canllawiau Cylch Ariannu Cyffredinol Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru. Mae'r Dangosyddion Canlyniadau a fydd yn cael eu monitro o ganlyniad i'r buddsoddiad yn dibynnu ar yr is-gategori. Bydd angen i ymgeiswyr ddewis o leiaf un dangosydd fel rhan o'r cais.




Bydd y ffurflen ar-lein yn rhestru'r Dangosyddion Canlyniadau perthnasol a bydd angen ichi bennu targedau ar gyfer o leiaf **un** ohonynt.  Mae modd nodi mwy nag un Dangosydd Canlyniadau.

Esboniwch sut y byddwch yn cyrraedd y targedau hyn.

Esboniwch sut y byddwch yn monitro cynnydd, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer gwerthuso annibynnol allanol os bydd angen.

Bydd angen i Brosiectau ddarparu targedau i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r dangosyddion a ddewisir.

Mae rhai dangosyddion yn gofyn am ffigurau sylfaenol cychwynnol i alluogi mesur dros gyfnod penodol o amser.  Bydd llinell sylfaen o sero, lle bo'n berthnasol, yn cael ei dderbyn.


Nodwch mai'r targed y dylech ei nodi yw'r targed y byddwch yn ei gyflawni 3 blynedd ar ôl buddsoddi neu'n gynt lle bo hynny'n berthnasol. h.y. byddai adroddiad / dangosydd astudio yn cael ei gwblhau cyn y targed hwn.

Ar y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau, byddwch yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut y byddwch yn taro'r targedau ac yn monitro cynnydd i fodloni'r Dangosyddion Canlyniadau.


Bydd angen monitro'r dangosyddion a'r canlyniadau ac efallai y bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth sy'n cadarnhau'r lefel ddangosyddion cyfredol sy'n cael ei chyflawni yn ogystal â chadarnhau'r lefel a gyflawnwyd dair blynedd o ddiwedd eich dyfarniad grant.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.


Ar y Tabl Dangosyddion, cliciwch ar y botwm glas 'Ychwanegu Dangosydd' i roi ymatebion i'r Dangosyddion.





Dewiswch y Dangosydd rydych am ymateb iddo o'r rhestr a welwch ar y gwymplen.




Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.





***<u>RHAID RHOI TYSTIOLAETH O O LEIAF 1 DANGOSYDD LEFEL ACHOS</u>***




Ar ôl ichi ychwanegu'r ymateb dangosydd, arbedwch yr wybodaeth ac ewch yn ôl i'r dudalen prif Ddangosyddion a Chanlyniadau.



Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cynllun y Prosiect - Ariannol a Chydymffurfio

Yn is-adran olaf Cynllun y Prosiect bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am agweddau ariannol eich prosiect a'r gofynion cydymffurfio.

**Pob Prosiect**

Disgrifiwch sut rydych yn bwriadu ariannu'r buddsoddiad, yn ychwanegol at y grant (ble yn berthnasol).  Rhowch dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi eich cais.

Beth yw'r angen ariannol am y grant? Beth fyddai'n digwydd heb unrhyw gymorth?

Darparu esboniad manwl o swm, diben a chorff grant unrhyw gyllid cyhoeddus y mae'r Busnes / Sefydliad wedi'i dderbyn yn hyn a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol.

Wrth ateb yr uchod, rhaid ichi ystyried a chynnwys y canlynol yn eich esboniadau:

Esboniwch sut y byddwch chi, yr ymgeisydd, yn ysgwyddo'r ymrwymiadau ariannol a chydymffurfiaeth sydd ynghlwm yng nghyflawni'r prosiect.

Disgrifiwch o ble daw'r cyllid ar gyfer y cynnig hwn.  Rhaid ichi nodi a yw'r ffynhonnell eisoes wedi'i chael neu yn yr arfaeth.  Gall y data ariannol ymdrin â phedair elfen:


- Cyfrif elw a cholled;
- y fantolen;
- rhagolygon arian parod;
- A throsiant.

Rhowch eich rhagolygon o ran trosiant a llif arian.

Rhestrwch eich ffynonellau ymchwil.

Rhowch asesiad o ba mor fforddiadwy yw’r prosiect h.y. tystiolaeth bod y grant yn ddigon i’r ymgeisydd allu ysgwyddo’r costau.

Ar y dudalen Ariannol a Chydymffurfio, byddwch yn esbonio sut y caiff y Prosiect ei ariannu, ar ben unrhyw grant a gewch, a sut y byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw ymrwymiadau.




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




Yn ôl at y Cynnwys

# Rhestr o’r Dogfennau Atodol


Ar y dudalen ‘Rhestr o’r Dogfennau Atodol sydd eu hangen’ ceir rhestr o’r holl ddogfennau mae’n rhaid i chi eu cyflwyno gyda’ch cais, ynghyd â rhestr o rai o’r dogfennau eraill y gall fod angen i chi eu cyflwyno i ategu’ch cais, gan ddibynnu ar eich prosiect.

Sylwch nad yw'n ofynnol i chi gyflwyno 3 blynedd o gyfrifon ardystiedig, 3 blynedd o ragamcanion ariannol, neu gynllun busnes tair blynedd os ydych yn Gorff Cyfraith Gyhoeddus neu'r byd academaidd.

**Rhaid** cyflwyno’r holl ddogfennau ategol erbyn y dyddiad cau.

Gofynnir i chi hefyd a yw'r Busnes / Sefydliad yn llai na 3 oed ac felly ni allwch ddarparu 3 blynedd o gyfrifon ardystiedig. Gofynnir i chi ddarparu'r holl gyfrifon sydd ar gael a gofynnir i chi dicio'r blwch i gadarnhau.

Rhaid i chi ddewis o leiaf un ffordd o gyflwyno dogfennau ategol er mwyn symud ymlaen i’r dudalen nesaf.




Ar ôl i chi orffen dewis eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf.**





Yn ôl at y Cynnwys

# Cyflwyno


## Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw gamgymeriadau yn eich cais, a Chrynodeb o'ch cais.




Ni fydd unrhyw destun y byddwch wedi'i ysgrifennu yn y blychau testun mawr yn ymddangos fan hyn ond byddwn yn ei ddangos yn y crynodeb PDF a gewch trwy RPW Ar-lein ar ôl ichi gyflwyno'ch cais yn llwyddiannus.

Mae'r sgrinlun canlynol yn dangos y neges fydd yn cael ei dangos os oes camgymeriadau a byddwn wedi nodi'r camgymeriadau hynny i chi gael eu cywiro:





Ar ôl darllen y crynodeb a chywiro unrhyw wallau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl at y Cynnwys]

# Datganiad ac Ymrwymiadau

Rhaid i chi ddarllen yr adran ‘Datganiad ac Ymrwymiadau’ a welwch yn y sgrin lun isod. Ar ôl i chi wneud hyn, ticiwch y blwch ar waelod y sgrin i gadarnhau eich bod yn cytuno â hwy, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Ar ôl i chi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau, **ticiwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â hwy.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf** i fynd i’r dudalen Cyflwyno.




Yn ôl at y Cynnwys

# Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno Ffurflen Gais y Cynllun Datblygu Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.




Ar ôl i'ch cais gael ei gyflwyno, fe welwch y dudalen Cadarnhau Cyflwyno, a gallwch argraffu copi o'r dudalen hon ar gyfer eich cofnodion trwy ddewis y botwm **Printio'r Sgrin Hon**.




Yn awr, gallwch ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** er mwyn cael mynd yn syth at eich tudalen Negeseuon ar RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael.**

**Noder**: Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau rydych wedi'u dewis.

Yn ôl at y Cynnwys

# Ar ôl Cyflwyno'r Datganiad yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o Ffurflen Gais Cynllun Môr a Physgodfeydd Cymru yn cael ei ychwanegu at eich tudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau dderbyniwyd gan Taliadau Gwledig Cymru". Gofalwch fod yr wybodaeth rydych wedi'i chyflwyno'n gywir. Os gwelwch fod gwybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan esbonio'ch pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y gwelwch wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael problemau neu'n ei chael yn anodd mynd ar ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Os caiff eich cais ei ddewis, byddwch yn cael gwybod trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Rhaid ichi naill ai dderbyn neu wrthod y cynnig trwy lenwi a dychwelyd Atodiad y Cais fydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu'ch bod wedi'ch dewis, a'i anfon at Lywodraeth Cymru trwy'ch cyfrif ar-lein erbyn y dyddiad fydd wedi'i nodi ar eich llythyr.

Cewch wybod trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein a yw eich cais wedi'i ddewis ac a fydd yn cael ei werthuso'n llawn ar gyfer ystyried cynnig contract iddo.

Yn achos ceisiadau na fyddant yn llwyddiannus yn ystod y broses ddethol, rhoddir gwybod i chi trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau, oherwydd gall peidio â gwneud hynny arwain at oedi cyn gwerthuso'r cais.

Yn ôl at y Cynnwys

# Cysylltiadau

## RPW Ar-lein

Ewch i'r gwasanaeth RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu os ydych wedi ichi gofrestru gyda'r gwasanaeth RPW Ar-lein eisoes, ewch iddo trwy www.cymru.gov.uk/RPWArlein. Os nad ydych wedi cofrestru eto gydag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ynghylch sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Ymholiadau – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.
Gallwch ofyn cwestiwn drwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad yw ein cyfleusterau yn darparu ar eu cyfer yn eich tyb chi, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Wedyn bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam posibl i diwallu eich anghenion.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y Môr a Physgodfeydd, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.